
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Promenâd Llanfairfechan, Conwy

## Taith gerdded hamddenol wastad sy'n berffaith i weld bywyd gwyllt gyda'r teulu.

*"Mae'r daith gerdded hamddenol wastad hon yn wych i wylio adar ac i weld amrywiaeth o olygfeydd ar hyd y ffordd. Mae'r golygfeydd eang o'r traeth, y morfeydd heli ffrwythlon a mynyddoedd y Carneddau'n cynnig y lle perffaith am bicnic ar un o'r meinciau sydd ar ran hon y llwybr."*

**GRUFF OWEN, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:

Maes parcio'r promenâd, Llanfairfechan.

### Pellter:

1 milltir/2km.
Taith gerdded estynedig 2 milltir/3km.

### Ar hyd y ffordd...

Aiff y daith gerdded hamddenol, wastad hon â chi ar hyd glan y môr i Warchodfa Natur Glan y Môr Elias. O'r maes parcio, dilynwch Lwybr Arfordir Cymru ar hyd y promenâd tuag at Fangor ac Ynys Môn.

Byddwch chi'n pasio'r llyn cychod, sy'n gartref i elyrch sy'n nythu, a chewch fwynhau golygfeydd godidog o'r arfordir, Sir Fôn, y Gogarth a thuag at Fangor a'r Carneddau. Wrth i chi fynd yn eich blaen, mae'r promenâd yn troi'n llwybr glaswellt cyn mynd i mewn i Warchodfa Natur Glan y Môr Elias.

Mae cyfoeth o olygfeydd amrywiol, gyda morfa heli o'ch blaen, traeth i'r dde a'r Carneddau i'r chwith. Cofiwch eich binocwlars, gan fod y warchodfa'n hafan i adar, felly mae'n ffordd wych i blant weld bywyd gwyllt yn ei gynefin naturiol.

Cadwch lygad am gornchwiglod, gylfinirod, yn ogystal â grwpiau o biod môr sydd â phlu nodweddiadol du a gwyn, a choesau a phigau coch.

Er mwyn gwneud y gorau o'r profiad, dewch i gael picnic teuluol ar un o'r meinciau picnic neu eisteddwch ar y traeth a gwylio'r byd yn mynd heibio. Unwaith i chi werthfawrogi'r awyrgylch, beth am fynd yn ôl i'r man cychwyn a chael paned neu hufen iâ yn y caffi?

Neu, gallwch chi ddilyn y llwybr o gwmpas y warchodfa ble mae rhagor o olygfeydd arfordirol a thaith gerdded gylchol bleserus.

Os hoffech chi gerdded ychydig yn bellach, ewch ymlaen i'r cuddfannau adar yng Ngwarchodfa Natur Morfa Madryn cyn mynd adre.

### Angen gwybod:

Mae lle parcio, caffi a thoiledau ym man cychwyn y daith gerdded. Mae bysus lleol yn stopio ym mynedfa'r maes parcio a gellir cerdded i'r orsaf drenau.